Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Rhydaman

**Lôn Yr Ysgol,
Rhydaman,
Sir Gaerfyrddin
SA18 2NS**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Rhydaman

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymraeg Rhydaman |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 288 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 231 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 20 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 7.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 2.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 61.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/04/2021 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 07/10/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Gymraeg Rhydaman ym gymuned gartrefol a chynhwysol sy'n hyrwyddo lles disgyblion a staff yn hynod effeithiol. Mae ymddygiad bron bod disgybl yn arbennig o dda ac maent yn dangos ymagweddau cadarn iawn at fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r berthynas gynhaliol sy'n bodoli rhwng yr ysgol, y gymuned a rhieni yn gryfder.

Mae gan y pennaeth weledigaeth gadarn wedi'i seilio ar sicrhau bod bob disgybl yn dysgu hyd eithaf eu gallu mewn awyrgylch hapus a diogel. Mae hi'n cael ei chefnogi'n frwd gan y staff a'r llywodraethwyr, sy'n cydweithio'n effeithiol er mwyn gwella'r ddarpariaeth a gynigir i'r disgyblion. Un o'r cryfderau amlwg yw'r ffordd mae'r pennaeth yn cynnwys yr holl staff a llywodraethwyr yn bwrpasol yn y broses hunanwerthuso. Maent yn cynnal nifer o weithgareddau monitro yn dymhorol sy'n hynod effeithiol wrth adnabod cryfderau'r ysgol a'r holl feysydd sydd angen eu gwella.

Mae'r iaith Gymraeg a dathlu Cymreictod y disgyblion yn ganolbwynt i fywyd a gwaith yr ysgol. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn fyrlymus wrth gyfathrebu yn y Gymraeg ac yn dangos balchder at ddiwylliant a threftadaeth eu bro a Chymru yn ehangach.

Mae gan y staff ddealltwriaeth gynhwysfawr o anghenion bob disgybl ac maent yn ymateb i'w hanghenion yn hynod effeithiol. O ganlyniad, mae'r ymdeimlad o barch sy'n bodoli rhwng y staff a'r disgyblion yn nodwedd gref.

Mae'r athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau dysgu sy'n effeithiol wrth ddatblygu ystod eang o fedrau'r disgyblion a'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r hyn y maent yn ei ddysgu. Mae'r cwricwlwm yn rhoi ffocws pendant ar yr ardal leol, gan gynnwys cyfleoedd diddorol i ddisgyblion ddysgu am hanes eu bro, gan wneud cysylltiadau rhwng bywydau pobl y gorffennol a'u bywydau nhw heddiw. Mae'r athrawon yn cynnig cyfleoedd bwriadus i'r disgyblion gydweithio o fewn y sesiynau dysgu, sydd yn cael effaith gadarnhaol ar allu'r disgyblion i ddefnyddio eu medrau meddwl a datblygu eu syniadau'n gynyddol annibynnol. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus a hapus.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1 Parhau i roi trefniadau ar waith i leddfu diffyg gofod mewn rhai dosbarthiadau dros y cyfnod byr, gyda golwg i roi cynllun mwy hirdymor ar waith er mwyn ehangu'r ardal ddysgu.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif arfarniad

O dan arweiniad cadarn y pennaeth, mae tîm ymroddedig o staff yn gweithredu er mwyn sicrhau bod disgyblion yn dysgu a datblygu eu medrau hyd eithaf eu gallu. Mae'r pennaeth yn modelu ac yn arddel gwerthoedd Cymreictod, hapusrwydd, parch a chyfeillgarwch sy'n sail i'w weledigaeth o greu 'Dyffryn llawn dysg a chwerthin iach, a thân dros yr iaith ymhob plentyn bach'. Rhennir y weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda chymuned yr ysgol. Un o gryfderau amlwg yr ysgol yw'r ymdeimlad o dîm cryf sy'n bodoli ymysg y staff a'r llywodraethwyr. Maent yn cydweithio'n hynod effeithiol er mwyn gwella'r ddarpariaeth a gynigir i'r disgyblion. Yn ei dro, mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth bron bob disgybl.

**Ciplun – Rôl a chyfraniad y staff a'r llywodraethwyr yn y broses hunanwella:**

Mae ystod glir o weithgareddau hunanwerthuso yn cael eu defnyddio gan yr ysgol yn dymhorol, gan gynnwys teithiau dysgu, craffu ar waith a holi disgyblion, sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar allu'r staff a'r llywodraethwyr i adnabod cryfderau'r ysgol a'r holl feysydd sydd angen eu gwella. Yn dilyn y gweithgareddau monitro, mae'r staff a'r llywodraethwyr yn cyfarfod i arfarnu'r hyn maent wedi ei arsylwi. Mae'r arfarniadau'n canolbwyntio'n gadarn ar effaith y ddarpariaeth ar safonau disgyblion, er enghraifft yr angen i wella medrau darllen y disgyblion. Mae arweinwyr yn darparu hyfforddiant i'r staff er mwyn mynd i'r afael â'r agweddau sydd angen sylw. Yna, maent yn mesur cynnydd yn erbyn y camau gweithredu yn y cyfnod monitro nesaf. O ganlyniad, mae'r staff a'r llywodraethwyr yn medru gweld effaith y gwelliannau yn y ddarpariaeth ar ddeilliannau'r disgyblion yn fuan, cyn symud ymlaen i weithredu pellach.

Mae'r athrawon yn cydweithio'n fwriadus er mwyn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sydd wedi'i wreiddio yn yr ardal leol. Drwy gynllunio amryw weithgareddau addysgol ysgogol a difyr, maent yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddysgu am ddiwylliant, hanes a threftadaeth yr ardal leol a Chymru. Er enghraifft, mae'r staff yn cynnig cyfleoedd cyson i'r disgyblion ddysgu am fannau hanesyddol lleol, gan annog y disgyblion i wneud cymariaethau rhwng bywydau trigolion o wahanol gyfnodau a'u bywydau nhw heddiw. Mae'r staff yn cydweithio'n agos ag aelodau'r gymuned sy'n elfennol wrth ddwysáu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad y disgyblion o'u cynefin.

**Ciplun – Datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a gwerthfawrogiad y disgyblion o hanes yr ardal leol:**

Mae disgyblion blynyddoedd 3 a 4 wedi bod yn astudio hen fapiau o'r ardal leol, er mwyn datblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae tref Rhydaman wedi newid dros y canrifoedd.

Datblygodd y disgyblion eu medrau darllen map yn fedrus trwy gaffael gwybodaeth o allweddi a graddfeydd mapiau o wahanol gyfnodau mewn hanes. O fewn eu grwpiau dysgu, aethant ati i edrych ar newidiadau yn y defnydd o dir dros y canrifoedd gan drafod y rhesymau posibl am hyn. Datblygodd y disgyblion eu medrau meddwl yn gelfydd wrth iddynt ystyried newidiadau mewn poblogaeth y dref dros yr oesoedd a'r angen am fwy o gartrefi, siopau a chyfleusterau o fewn yr ardal. Gwnaeth disgyblion Blwyddyn 5 a 6 gysylltiadau dysgu pellach drwy edrych ar sut mae crefydd wedi newid dros y ganrif a hanner ddiwethaf, a chasglu data oddi ar gerrig beddau mewn mynwentydd lleol ar ffurf cronfa ddata.

Yn dilyn hyn, cydweithiodd y disgyblion i ddatblygu eu medrau ysgrifennu drwy greu adroddiad i grynhoi'r wybodaeth i eraill.

Mae'r defnydd pwrpasol a wneir o'r ardaloedd dysgu cyfoethog yn gryfder amlwg yn y ddarpariaeth. Mae'r staff yn darparu gweithgareddau dysgu difyr ac ysgogol yn yr ardaloedd dysgu sy'n datblygu ystod o fedrau'r disgyblion yn effeithiol iawn. Fodd bynnag, mae lle yn brin mewn rhai o'r ystafelloedd dosbarth a'r iard. Mae'r ysgol yn gweithio o gwmpas hyn trwy amserlennu creadigol a defnydd priodol o staff.

Mae medrau llafar a chyfathrebu Cymraeg bron bob un o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n gadarn, er enghraifft wrth chwarae rôl yng nghaffi'r ysgol. Wrth symud drwy'r ysgol, mae medrau llythrennedd bron bob un disgybl yn datblygu'n dda yn y ddwy iaith. Mae medrau llafar a chyfathrebu Cymraeg y disgyblion hynaf yn datblygu'n hynod gadarn, er enghraifft wrth iddynt geisio dwyn perswâd ymwelwyr i ardal Pentywyn.

Mae bron bob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau darllen ac ysgrifennu, er enghraifft wrth i'r disgyblion ieuengaf ddarllen llyfrau am adeiladau pwysig Cymru gan ddefnyddio'r wybodaeth i ysgrifennu ffeithiau diddorol i eraill. Mae medrau mathemateg a digidol bron bob disgybl yn datblygu'n gadarn o oedran cynnar. Mae bron bob disgybl yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn hyderus ac yn gynyddol annibynnol. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn creu amserlen bws ar gyfer taith ymwelwyr o gwmpas yr ardal leol, gan gyfrifo'r pellter rhwng safleoedd bws ac arddangos yr amser cyrraedd a gadael ar ffurf cloc 24 awr.

Mae'r athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu effeithiol yn llwyddiannus. Maent yn holi'r disgyblion yn fedrus sy'n ymestyn eu gwybodaeth a dealltwriaeth o wahanol gyd-destunau ymhellach. Mae'r athrawon yn rhannu nod y sesiynau dysgu ac yn cynnwys y disgyblion yn bwrpasol wrth drafod yr hyn sy'n bwysig i'w gyflawni o fewn y gweithgareddau er mwyn llwyddo. Maent yn cynnal cyflymder addas i'r sesiynau dysgu, gan gynnig cyfleoedd bwriadus i'r disgyblion drafod eu syniadau gyda phartneriaid trafod ac o fewn grwpiau. Maent yn datblygu medrau dysgu annibynnol y disgyblion yn effeithiol, er enghraifft drwy annog y disgyblion i ystyried y ffordd orau o gynllunio a chyflwyno eu gwaith gorffenedig.

Mae’r athrawon yn cynnig adborth llafar pwrpasol sy’n galluogi’r disgyblion i adnabod y camau nesaf yn eu dysgu. Maent yn cynnig cyfleoedd amserol i ddisgyblion ystyried ansawdd eu gwaith eu hunain ac, ar adegau, gwaith eu cyfoedion.

Mae gan bob aelod o staff berthynas glòs a chynnes â’r disgyblion. Maent yn defnyddio ystod o dechnegau rheoli ymddygiad effeithiol ac o ganlyniad, mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda ac yn dangos agweddau cadarnhaol iawn at eu dysgu. Mae’r staff yn hyrwyddo egwyddorion pwysig fel caredigrwydd, parch a bod yn glên yn effeithiol. O fewn y sesiynau addoli ar y cyd, mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i drafod pwysigrwydd bod yn ddinasyddion gwybodus a gofalgar, er enghraifft.

Drwy’r amryw bwyllgorau, mae’r disgyblion yn cydweithio’n llwyddiannus wrth gyfrannu eu syniadau at sut gellir gwella’r ddarpariaeth ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae’r Cyngor Byw yn Iach wedi bod yn flaenllaw wrth brynu offer addysg gorfforol newydd wrth godi arian trwy gynnal gweithgareddau ffitrwydd ar gae'r ysgol.

Mae gan yr ysgol brosesau cadarn er mwyn adnabod disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol yn gynnar. Mae’r staff yn darparu rhaglenni cymorth pwrpasol sy’n effeithiol wrth ymateb i anghenion disgyblion, gan olrhain eu cynnydd yn gyson. Mae’r staff yn gweithio’n agos gyda’r rheini er mwyn caffael eu barn a rhannu gwybodaeth yn amserol am ddatblygiad eu plant.

Mae’r berthynas gynhyrchiol sy’n bodoli rhwng yr ysgol, y gymuned a’r rheini yn gryfder amlwg. Mae’r pennaeth yn cyfathrebu’n effeithiol â rhieni ac yn rhannu gwybodaeth berthnasol am newyddion a digwyddiadau’r ysgol yn amserol. Mae’r staff yn gweithio’n ddiwyd i sicrhau bod rhieni’n derbyn gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant. Maent yn caffael barn rheini yn gyson, gan ddefnyddio’r wybodaeth yn bwrpasol i wneud gwelliannau i’r ddarpariaeth.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelwch y safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni/gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol / aelodau’r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae’r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *‘y rhan fwyaf o ddisgyblion…’* neu *‘ychydig iawn o ddisgyblion…’*. Rydym yn defnyddio’r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024:  Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  09/12/2024